Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (FFORDD OSGOI'R WYDDGRUG, SIR Y FFLINT) (GWAHARDD CERBYDAU A BEICWYR DROS DRO) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A494 Ffordd Osgoi'r Wyddgrug, Sir y Fflint, neu gerllaw iddi.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) o 1 Ebrill 2015 hyd 17 Gorffennaf 2015 ac o 2 Medi 2015 hyd 18 Rhagfyr 2015 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, a phob beiciwr rhag mynd ar y darn o'r A494 Ffordd Osgoi'r Wyddgrug rhwng ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan New Brighton a'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Gwernymynydd, ac eithrio cerbytffordd gylchredol Cylchfan yr Wylfa a Chylchfan Bromfield. Bydd y gwaith yn cael ei wneud fesul cam fel mai dim ond un rhan o'r ffordd osgoi rhwng unrhyw ddwy gylchfan fydd ar gau ar y tro a bydd arwyddion gwybodaeth yn cael eu harddangos o leiaf 7 niwrnod cyn cau unrhyw ran.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de rhwng Cylchfan New Brighton a Chylchfan yr Wylfa yw dilyn yr A5119 tua'r gorllewin a thua'r de-orllewin a'r A541 tua'r de-ddwyrain i ailymuno â'r A494 wrth Gylchfan yr Wylfa: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de rhwng Cylchfan yr Wylfa a Chylchfan Bromfield yw dilyn yr A541 tua'r gogledd-ddwyrain a'r A5119 tua'r de i ailymuno â'r A494 wrth Gylchfan Gwernymynydd: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin rhwng Cylchfan Bromfield a Chylchfan Gwernymynydd yw dilyn yr A494 tua'r gogledd i Gylchfan yr Wylfa, yr A541 tua'r gogledd-ddwyrain a'r A5119 tua'r de i ailymuno â'r A494 wrth Gylchfan Gwernymynydd: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A494 TRUNK ROAD (MOLD BYPASS, FLINTSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES AND CYCLISTS) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A494 trunk road at Mold Bypass, Flintshire.

The prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to be in force overnight (19:00 – 06:00 hours) from 1 April – 17 July 2015 and 2 September – 18 December 2015 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the proposed Order will be to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, and cyclists from proceeding in the length of the A494 Mold Bypass between its junction with the southern side of New Brighton Roundabout and its junction with the eastern side of Gwernymynydd Roundabout, excluding the circulatory carriageway of Wylfa Roundabout and Bromfield Roundabout. The works will be phased as such that only one section of the bypass between any 2 roundabouts will be closed at a time and information signs will be displayed at least 7 days in advance of any closure.

The alternative route for southbound traffic between New Brighton Roundabout and Wylfa Roundabout is via the westbound and south-westbound A5119 and south-eastbound A541 to re-join the A494 at Wylfa Roundabout: vice versa for northbound traffic.

The alternative route for southbound traffic between Wylfa Roundabout and Bromfield Roundabout is via the north-eastbound A541 and southbound A5119 to re-join the A494 at Gwernymynydd Roundabout: vice versa for northbound traffic.

The alternative route for westbound traffic between Bromfield Roundabout and Gwernymynydd Roundabout is via the northbound A494 to Wylfa Roundabout, north-eastbound A541 and southbound A5119 to re-join the A494 at Gwernymynydd Roundabout: vice versa for eastbound traffic.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required due to unforeseen circumstances.

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE